OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 135

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015**

**5.** Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3, yn lle paragraff (2)(f), rhodder—

"(f) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan berson sydd wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 20 neu 22 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**2**), y person hwnnw a Gweinidogion Cymru"; a

(b) yn rheoliad 4, yn lle paragraff (1)(b), rhodder—

"(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."

(**1**) O.S. 2015/1599 (Cy. 198).
(**2**) 2010 mccc 1.